**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A449 A'R A40 (CYFNEWIDFA COLDRA, CASNEWYDD I GYLCHFAN HARDWICK, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn caniatáu i lwythi anwahanadwy annormal (fel y diffinnir "abnormal indivisible loads" yng Ngorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "Gorchymyn 2003")) gael eu cludo'n ddiogel ar gefnffordd yr A449 rhwng Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd a Chylchfan Hardwick yr A40, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini sy'n teithio gyda'r llwythi anwahanadwy annormal wrth iddynt symud a cherbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys) a phob beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 13 Ionawr 2024.

Disgwylir y bydd y ffyrdd ar gau yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch i 06:00 o'r gloch) o 13 Ionawr 2024 i 14 Ionawr 2024; o 20 Ionawr 2024 i 21 Ionawr 2024; ac o 27 Ionawr 2024 i 28 Ionawr 2024.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A449 & A40 TRUNK ROADS (BETWEEN COLDRA INTERCHANGE, NEWPORT AND HARDWICK GYRATORY, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to permit the safe transportation of abnormal indivisible loads (AIL) (as defined in the Road Vehicle (Authorisation of Special Types) (General) Order 2003 (hereinafter referred to as "the 2003 Order")) on the A449 trunk road between Coldra Interchange, Newport and the A40 Hardwick Roundabout, Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those which are accompanying the AIL movement and being used by the emergency services), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A449 and A40 trunk roads specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The Order will come into force on 13 January 2024.

Road closures are expected to operate intermittently overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from 13 January 2024 until 14 January 2024; from 20 January 2024 until 21 January 2024; and from 27 January 2024 until 28 January 2024.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the closure need to be rescheduled or consequential or other closure is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled closure.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gerbytffordd tua’r gogledd yr A449 sy’n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), Casnewydd hyd at drwyniad ffordd ymuno tua’r gogledd yr A449 a’r A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

2. Y darn o ffordd ymuno neilltuedig tua’r dwyrain yr M4/A449 wrth Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), Casnewydd sy’n uno â cherbytffordd tua’r gogledd yr A449.

Y llwybr arall nad yw’n llwybr traffordd fydd mynd ar yr A48 tua’r gorllewin (Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol Casnewydd) i Gyffordd Old Town Dock, parhau tua’r gogledd i Gylchfan Grove Park ac ymuno â’r A4042 i Gylchfan a System Gylchu Hardwick. Ymuno â’r A40 tua’r dwyrain i’r A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

Y llwybr arall ar gyfer traffig traffordd fydd mynd ar yr M4 tua’r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra) i Gyffordd 25A (Grove Park) a dilyn gweddill y llwybr uchod.

Y llwybr arall ar gyfer traffig traffordd o’r M4 wrth Gyffordd 26 fydd mynd ar yr A4051 ffordd Malpas tua’r gogledd i ymuno â’r A4042 tua’r gogledd a dilyn gweddill y llwybr uchod.

3. Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A449 (Cyfnewidfa Brynbuga).

Y llwybr arall ar gyfer traffig lleol fydd mynd ar yr A472 tua’r gorllewin i ymuno â’r A4042 tua’r gogledd a dilyn gweddill y llwybr a ddisgrifir uchod.

4. Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin yr A40 sy’n ymestyn o’i thrwyniad â ffordd ymuno tua’r gorllewin Cyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick.

5. Y darn o ffordd ymuno tua’r gorllewin yr A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

Y llwybr arall fydd mynd ar yr A449 tua’r de i Frynbuga, yna parhau tua’r gorllewin ac ymuno â’r A4042 tua’r gogledd i Gyfnewidfa Hardwick.

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Pedestrians and Alternative Routes

1. The length of the A449 northbound carriageway that extends from the circulatory carriageway of Junction 24 (Coldra Interchange), Newport to the nosing of the northbound entry slip road of the A449 and A40 (Raglan Interchange).

2. The length of the dedicated M4/A449 eastbound entry slip road at Junction 24 (Coldra Interchange), Newport that merges with the A449 northbound carriageway.

The alternative non-motorway route is via the westbound A48 (Newport South Distributor Road) to Old Town Dock Junction, continue northbound to Grove Park Roundabout and join the A4042 to Hardwick Roundabout and Gyratory. Join the eastbound A40 to the A449/A40 (Raglan Interchange).

The alternative route for motorway traffic is via the westbound M4 at Junction 24 (Coldra) to Junction 25A (Grove Park) and follow the remainder of the route above.

The alternative route for motorway traffic from the M4 at Junction 26 is via the northbound A4051 Malpas road to join the northbound A4042 and follow the remainder of the route above.

3. The length of the A449 (Usk Interchange) northbound entry slip road.

The alternative route for local traffic is via the westbound A472 to join the northbound A4042 and follow the remaining route described above.

4. The length of the A40 westbound carriageway that extends from its nosing with the westbound entry slip road of Raglan Interchange to its junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout.

5. The length of the A449/A40 (Raglan Interchange) westbound entry slip road.

The alternative route is via the southbound A449 to Usk, then continue westbound and join the northbound A4042 to Hardwick Interchange.